# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Tachwedd i'w hateb ar 23 Tachwedd 1999

### R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

C1 **Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**. A wnaiff gomisiynu astudiaeth o'r buddiannau a ddeuai i Gymru pe bai Caerdydd yn cael ei dewis yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. (OAQ2133)

C2 **Geraint Davies (Rhondda).** A oes gan y Prif Ysgrifennydd unrhyw gynlluniau i gwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod gwariant cyhoeddus yn y dyfodol yng Nghymru. (OAQ2123)

C3 **David Davies (Mynwy)**. A oes gan Ysgrifenyddion y Cynulliad y grym i wyrdroi penderfyniadau a wnaed gan y Cwangos. (OAQ2114)

C4 **Helen Mary Jones (Llanelli)**. A fydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cael mwy o adnoddau i'w helpu gyda'r cyfrifoldebau newydd ac arwyddocaol y disgwylir iddynt eu hysgwyddo o dan Fesur Mewnfudo a Nodded arfaethedig y Llywodraeth. (OAQ2120)

C5 **Christine Humphreys (Gogledd Cymru)**. A ydy e'n cydnabod y drafferth wirioneddol y mae bysiau a threnau amhrydlon yn ei hachosi i ymwelwyr â Chymru a phobl yn teithio i'r gwaith fel ei gilydd, ac os felly, a all ddweud beth a wneir i leihau effaith andwyol cludiant cyhoeddus gwael ar economi'r wlad. (OAQ2115)

C6 **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**. Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am raglen ddeddfu Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'i heffaith ar Gymru. (OAQ2124)

C7 **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**. Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am arian cyfatebol ar gyfer ardaloedd Amcan Un yng Nghymru. (OAQ2118)

C8 **Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**. A yw wedi cael trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cartref am y newidiadau i fformwla ariannu Gwasanaethau'r Heddlu yng Nghymru. (OAQ21111)

C9 **Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**. Beth yw'r datblygiadau diweddaraf yn yr ymgynghoriadau rhwng y Prif Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys ynghylch ffatri'r Ford Motor Company ym Mhen-y-bont ar Ogwr. (OAQ2129)

C10 **Mick Bates (Maldwyn)**. A all esbonio i'r Cynulliad pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r rhaglen Amcan Un yng Nghymru, a phwy yn benodol sy'n gyfrifol am ofalu am y ceisiadau am arian. (OAQ2115)

C11 **David Melding (Canol De Cymru)**. Beth fydd cyfraniad torri ar gyllid Ymddiriedolaethau'r NHS a'r Awdurdodau Iechyd at yr ymdrechion i leihau dieithrwch cymdeithasol. (OAQ2130)

C12 **Janet Ryder (Gogledd Cymru)**. A all wneud datganiad ar hynt y trafodaethau gyda Chomisiwn yr UE ynghylch map ardaloedd arfaethedig Amcan 2 yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig mewn perthynas â Gogledd Ddwyrain Cymru. (OAQ2132)

C13 **Cynog Davis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**. A oes ganddo gynlluniau i gael trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am raglen ddeddfu Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y flwyddyn i ddod. (OAQ2126)

C14 **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**. A wnaiff ddweud sut y cyfrannodd cau Morglawdd Bae Caerdydd ar 4 Tachwedd at ymrwymiad y Cynulliad i Ddatblygu Cynaliadwy. (OAQ2108)

C15 **Pauline Jarman (Canol De Cymru)**. Pa gynlluniau y mae wedi'u gwneud gyda Senedd San Steffan ynghylch trosglwyddo i'r Cynulliad y rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r gweithle. (OAQ2125)

C16 **Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**. O gofio pwysigrwydd sicrhau bod pwerau is-ddeddfu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwbl eglur, sawl gwaith y mae wedi trafod hyn gydag aelodau Cabinet San Steffan. (OAQ2122)

C17 **Y Dr Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru).** A fydd yn gwneud datganiad am

unrhyw drafodaethau rhyngddo ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru am flaen-raglen ddeddfu Llywodraeth y DU. (OAQ2127)

C18 **Brian Hancock (Islwyn).** A fydd yn rhoi adroddiad am y gwaith sy'n cael ei wneud ar erddi botaneg newydd Cymru. (OAQ2128)

C19 **Phil Williams (Dwyrain De Cymru).** Pwy fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynhyrchu a gweithredu cynllun newydd strategol unedig i ddatblygu Bae Caerdydd yn gydlynol er mwyn sicrhau y bydd yn gwneud lles gwirioneddol i bobl Cymru. (R ) (OAQ2117)

C20 **Owen John Thomas (Canol De Cymru).** A fydd ef yn cefnogi'r syniad o ail-enwi'r brif heol i'r Cynulliad yn Heol Owain Glyndwr fel teyrnged addas i un o arwyr mwyaf Cymru, o gofio bod y flwyddyn 2000 yn cofnodi 600mlwyddiant ymgyrch arwrol Glyndwr dros ein gwlad (OAQ2119)

C21 **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd).** Pa strategaeth fydd e'n ei harddel i hybu ymhellach ddelwedd a phroffil Cymru drwy'r byd. (OAQ2135)

C22 **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro).** A oes ganddo gynlluniau ar gyfer trefnu 'Diwrnod Anabledd' pan fyddai busnes y Cynulliad yn cael ei neilltuo i drafod materion yn ymwneud ag anabledd. (OAQ2134)

C23 **Gareth Jones (Conwy).** A oes unrhyw gynlluniau i godi proffil twristiaeth yn y ddogfen Raglennu Sengl Amcan Un ar gyfer Cymru. (OAQ2121)

C24 **Jane Davidson (Pontypridd).** Pa gamau fydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau bod gan blant gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn yr ysgol a'r tu allan. (OAQ2110)

C25 **Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr).** Pa waith sydd wedi'i wneud o ran darparu mynediad i adeilad newydd y Cynulliad ar gyfer pobl anabl. (OAQ2109)

C26 **Alison Halford (Delyn).** Pa gynlluniau o sylwedd sydd ganddo i gynorthwyo siopau elusennau yng Nghymru. (OA2131)

C27 **Michael German (Dwyrain De Cymru).** Pa sicrwydd all ei roi y bydd Timau Gweithredu ar Alcohol a Chyffuriau yng Nghymru yn cael rhan briodol o'r £3 miliwn o'r elw a atafaelwyd oddi wrth fasnachwyr cyffuriau a gafodd ei ddyrannu i fentrau gwrth-gyffuriau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. (OA2112)